Dŵr Cymru
Welsh Water

# Datganiad Sicrwydd y Bwrdd am Daliadau Cyfanwerthu

## Dogfen Taliadau Cyfanwerthu 2025/26

Ystyriodd y Bwrdd y tariffau Cyfanwerthu ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfodydd ar 5 Rhagfyr a 23 Rhagfyr 2024. Nododd y Bwrdd y gofynion o ran gwybodaeth a'r deunyddiau ategol perthnasol, a chyflwynwyd ymholiadau priodol i'r Tîm Gweithredol, ac yn benodol i'r Cyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio. Ystyriodd y Bwrdd adroddiad gan Jacobs, a benodwyd i ddarparu sicrwydd allanol bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r wybodaeth a gyhoeddir am y tariffau cyfanwerthu yn gadarn, ac i adolygu'r broses ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ar ôl cyflawni'r ymholiadau rhesymol a pherthnasol uchod, gallwn gadarnhau, hyd y gwyddom, fod y tariffau a nodir yn Nogfen Taliadau Cyfanwerthu Dŵr Cymru 2025/26 yn cydymffurfio â'r amrywiol ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i'r cwmni o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i diwygiwyd) a deddfwriaeth berthnasol arall, yn eu cyfanrwydd.

Paratowyd y ddogfen a'r wybodaeth ychwanegol gofynnol gan staff profiadol gan ddefnyddio prosesau a system rheoli mewnol priodol, ac maent wedi cael eu paratoi i safon y gellir ei disgwyl yn rhesymol gan ymgymerydd diwyd.

Gyda'r 'Rheolau Taliadau Cyfanwerthu a gyhoeddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E ac 117I o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' a gyhoeddwyd yn Hydref 2021, mewn golwg, rydyn ni o'r farn bod ein taliadau'n gyson â'r gofynion hyn, wrth ystyried y rheolau ar gyfer taliadau cyfanwerthu yn eu cyfanrwydd.

Mae'r Bwrdd wedi derbyn gwybodaeth berthnasol am effeithiau'r tariffau ar gwsmeriaid mewn eiddo cymwys ac mae'n nodi y bydd y taliadau cyfanwerthu ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl yn cynyddu 26%, a hynny'n bennaf oherwydd Penderfyniad Terfynol PR24 a ddaw i rym ar gyfer tariffau yn 2025/26. Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod strategaethau cyfathrebu a thrafod perthnasol yn bodoli ar gyfer y cwsmeriaid hyn.

Mae'r taliadau cyfanwerthu terfynol tua thri phwynt canrannol yn uwch na'r ffigurau dangosol a gyhoeddwyd yn Hydref 2024. Mae hyn yn bennaf oherwydd newidiadau yn y refeniw a ganiateir rhwng Penderfyniadau Drafft a Therfynol PR24, wedi eu gwrthbwyso trwy ail-gydbwyso tariffau rhwng grwpiau o gwsmeriaid.

Mae'r cwmni wedi gohebu ag adwerthwyr sy'n gweithredu o fewn y rhanbarth ac wedi ymgysylltu â CCW mewn ffordd amserol ac effeithiol mewn perthynas â'r Taliadau Cyfanwerthu.

Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 23 Rhagfyr 2024, cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad Sicrwydd yma.

**Jane Hanson CBE**
Cadeirydd

Ar ran y Bwrdd
13 Ionawr 2025